

Addysg a Gweddnewid
Deialu uniongyrchol:
Gofynnwch am: Gwasanaethau
Dysgyblion

Ein cyf:

Dyddiad: 21 Tachwedd 2022

At: Rieni/Gofalwyr disgyblion sy'n fynd i fewn i blwyddyn derbyn ym Medi 2023

Annwyl Riant/Ofalwr

Derbyn i'r ysgol – Medi 2023

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig i rieni a gofalwyr disgyblion sy'n gymwys i fynd i fewn i'r flwyddyn Derbyn ysgol gynradd ym mis Medi 2023.

Os ydych chi'n riant/gofalwr i blentyn sy'n gymwys ar gyfer dosbarth Derbyn Medi 2023, mae'n **rhaid** cwblhau cais derbyn ysgol. Hyd yn oed os mae eich plentyn yn bresennol mewn Meithryn yn eich ysgol/ion dewisol, does dim hawl awtomatig i le yn dosbarth derbyn.

Gellwch wneud cais ar-lein. Os ydych eisoes wedi ymuno â Fy Nghyfrif ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd angen i chi fewngofnodi ac wedyn gellwch gwblhau cais am le ym mlwyddyn derbyn ar-lein. Os nad ydych eisoes wedi llofnodi ar gyfer Fy Nghyfrif, gellwch greu eich cyfrif o wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Y cyfan sydd arnoch ei angen yw cyfeiriad e-bost. Mae'n gyflym ac yn hawdd gwneud cais am le ym mlwyddyn derbyn drwy Fy Nghyfrif a gellwch gael tawelwch meddwl, gan wybod bod eich cais wedi dod i law oherwydd, unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r cais, bydd hyn yn cael ei nodi yn y crynodeb o wybodaeth yn Fy Nghyfrif.

Cyn gwneud cais ar-lein, mae'r Cyngor yn argymhell eich bod yn darllen [2023-2024 Prosbectws Dechrau yn yr Ysgol](#), sydd ar gael o'r wefan, neu, fel arall, e-bostiwch pupilservices@bridgend.gov.uk i ofyn am gopi papur.

Mae'r ffurflen ar gael ar ffurf copi papur ar gais gan eich ysgol leol.

Nodwch, os gwelwch yn dda, mae'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau wedi eu cwblhau yw **4pm dydd Gwener, 10 Chwefror 2023**. Gall methu â chyflwyno cais erbyn y dyddiad hwn arwain at wrthod lle i'ch plentyn yn yr ysgol o'ch dewis chi.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Mae gan bob rhiant/gofalwr yr hawl i nodi dewis o ran i ba ysgol y mae'n dymuno i'w blentyn fynd iddi. Yn y rhan fwyaf o achosion mae rhieni'n fodlon dewis eu hysgol addas agosaf (ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a di-ffydd, a elwir hefyd yn ysgol y dalgylch). Os byddwch yn llwyddiannus wrth wneud cais am le mewn ysgol nad yw'n ysgol addas agosaf eich plentyn, **ni fydd** y Cyngor yn darparu cludiant am ddim fel arfer, beth bynnag yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r [Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol neu Goleg](#) ar gael ar ein wefan.

Os bydd ysgol yn derbyn gormod o geisiadau, h.y. os yw'r galw am leoedd yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael, bydd y Cyngor yn defnyddio ei feini prawf gormod o alw i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael. **Argymhellir yn gryf eich bod yn dewis ysgolion eraill fel eich ysgolion ail a thrydydd dewis. Nid yw cyfyngu eich dewis i un ysgol yn unig yn gwella eich gobeithion o ennill lle i'ch plentyn yn yr ysgol honno.**

Mae'n bwysig nodi nad oes gan ddisgyblion â brodyr neu chwiorydd yn yr un ysgol yr hawl awtomatig i gael lle yn yr ysgol honno. Nodir rhestr lawn o'r meini prawf gorallw a weithredir wrth neilltuo lleoedd mewn ysgolion yn y Polisi ar gyfer Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2023-2024.

Ar gyfer derbyniadau i'r ysgolion canlynol, corff llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn sydd â'r cyfrifoldeb am yr holl drefniadau derbyn. Felly fe'ch cynghorir i gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol i wneud cais am le. Mae'r meini prawf derbyn ar gyfer yr ysgolion yma yn wahanol i ysgolion gynradd eraill a mae manylion llawn ar gael o'r ysgolion a/neu ar wefannau'r ysgolion.

- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig
- Ysgol Gynradd Gatholig St Robert
- Ysgol Gynradd Archddiacon John Lewis

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch y broses dderbyn, e-bostiwch pupilservices@bridgend.gov.uk os gwelwch yn dda.

Yn gywir

Robin Davies
Rheolwr Grŵp (Cymorth Busnes)

Ffôn/Tel: 01656 643643

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Facs/Fax: 01656 668126

Twitter@bridgendCBC

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwidi testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.